*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 2912

# Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005

## RHAN 7

Swyddogion, cyfarfodydd, trafodion, pwyllgorau a gwrthdrawiadau buddiannau

### Penodi swyddogion, eu swyddogaethau a'u diswyddo

**37.** Mae Rhan 7 o'r Rheoliadau Llywodraethu yn gymwys i ysgolion newydd yn ddarostyngedig i'r addasiadau cyffredinol a rheoliadau 38 a 39.

**38.**—(1) Yr awdurdod addysg lleol sydd i benodi clerc cyntaf corff llywodraethu dros dro ysgol newydd a fydd yn ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, neu ysgol arbennig gymunedol, neu ysgol sefydledig neu ysgol arbennig sefydledig y cafodd y cynigion i'w sefydlu eu cyhoeddi gan yr awdurdod addysg lleol.

(2) Hyrwyddwyr yr ysgol sydd i benodi clerc cyntaf corff llywodraethu dros dro ysgol newydd a fydd yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu'n ysgol sefydledig neu'n ysgol arbennig sefydledig y cafodd y cynigion i'w sefydlu eu cyhoeddi gan hyrwyddwyr.

**39.**—(1) Y clerc sydd i alw cyfarfod cyntaf corff llywodraethu dros dro.

(2) Rhaid i'r corff llywodraethu dros dro ethol cadeirydd ac is-gadeirydd yn y cyfarfod cyntaf hwnnw.

(3) Os yw'r clerc yn methu â galw cyfarfod o fewn unrhyw gyfnod sy'n rhesymol ym marn yr awdurdod addysg lleol, rhaid i'r awdurdod addysg lleol ei alw.

### Cyfarfodydd a thrafodion cyrff llywodraethu dros dro

**40.**—(1) Mae Rhan 8 o'r Rheoliadau Llywodraethu yn gymwys i ysgolion newydd yn ddarostyngedig i'r addasiadau cyffredinol ac i baragraff (2).

(2) Os yw dwy neu fwy o ysgolion i'w cau ("yr ysgolion sydd i'w cau") a disgwylir y bydd y disgyblion cofrestredig yn yr ysgolion hynny, neu nifer sylweddol ohonynt, yn trosglwyddo i ysgol newydd, mae gan benaethiaid yr ysgolion hynny sydd i'w cau yr hawl i fynychu unrhyw gyfarfod corff llywodraethu dros dro'r ysgol newydd hyd nes y penodir pennaeth newydd ar gyfer yr ysgol honno.

### Pwyllgorau cyrff llywodraethu dros dro

**41.**—(1) Mae Rhan 9 o'r Rheoliadau Llywodraethu yn gymwys i ysgolion newydd yn ddarostyngedig i'r addasiadau cyffredinol ac i baragraff (2).

(2) Os yw dwy neu fwy o ysgolion i'w cau ("yr ysgolion sydd i'w cau") a disgwylir y bydd y disgyblion cofrestredig yn yr ysgolion hynny, neu nifer sylweddol ohonynt, yn trosglwyddo i ysgol newydd, mae gan benaethiaid yr ysgolion hynny sydd i'w cau yr hawl i fynychu unrhyw gyfarfod o

bwyllgor i gorff llywodraethu dros dro'r ysgol newydd hyd nes y penodir pennaeth newydd ar gyfer yr ysgol honno.

### Cyfyngiadau ar bersonau sy'n cymryd rhan mewn trafodion

**42.** Mae Rhan 10 o'r Rheoliadau Llywodraethu yn gymwys i ysgolion newydd yn ddarostyngedig i'r addasiadau cyffredinol.